O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 57

Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2026

Gwnaed	*2 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 57

The Charges for Residues Surveillance (Amendment) (Wales) Regulations 2026

Made	*2 March 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 57

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006 (O.S. 2006/2285) o ran Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn amrywio'r ffioedd y mae'n ofynnol eu talu mewn cysylltiad â gwyliadwriaeth anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid am weddillion cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol a sylweddau eraill.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

2026 Rhif 57

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2026

Gwnaed	*2 Mawrth 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45 ac 48(1)(b) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 48(4A)(**3**) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar y cynnig i wneud y Rheoliadau hyn.

Ymgynghorwyd fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod y gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**4**).

Enwi, cymhwyso a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2026.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026.

(**1**) 1990 p. 16. Diwygiwyd adran 45(1) a (2) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ("Deddf 1990") gan baragraffau 7, 8 ac 20 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 48(1) gan baragraffau 7, 8 ac 21 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.

(**2**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau, a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.

(**4**) EUR 2002/178, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Diwygio Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006

2.—(1) Mae Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006(**5**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 (atebolrwydd am wyliadwriaeth gweddillion ac adennill taliadau am wyliadwriaeth gweddillion)—

(a) ym mharagraff (1)(a)—

(i) yn lle "1 October 2024" rhodder "1 April 2026";

(ii) yn lle "31 March 2025" rhodder "31 March 2027";

(b) ym mharagraff (1)(b), yn lle "1 April 2025" rhodder "1 April 2027".

(3) Yn lle Atodlen 1 (taliadau am wyliadwriaeth gweddillion)(**6**) rhodder—

"SCHEDULE 1 Regulation 3(1)

Residues Surveillance Charges

Type of creature or animal product	Charge (£) from 1 April 2026 to 31 March 2027	Charge (£) on or after 1 April 2027
Bovine	0.9964 per carcase	1.0216 per carcase
Goat	0.0864 per carcase	0.0886 per carcase
Sheep	0.0864 per carcase	0.0886 per carcase
Soliped	0.5359 per carcase	0.5495 per carcase
Swine	0.0845 per carcase	0.0867 per carcase
Game and wild game	1.0461 per tonne	1.0461 per tonne
Poultry	0.7397 per tonne	0.7584 per tonne
Eggs	0.0237 per case of 360	0.0243 per case of 360
Milk	0.0466 per 1000 litres	0.0478 per 1000 litres
Fish other than trout	2.7078 per tonne of marketed product	2.7764 per tonne of marketed product
Trout	3.2455 per tonne of fish food	3.3278 per tonne of fish food".

(**5**) O.S. 2006/2285; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2007/2439, 2008/2999, 2009/2779, 2011/2945, 2024/967 (Cy. 162) a 2025/370 (Cy. 73).

(**6**) Amnewidiwyd Atodlen 1 ddiwethaf o ran Cymru gan O.S. 2024/967 (Cy. 162) ac fe'i cywirwyd wedi hynny gan O.S. 2025/370 (Cy. 73).

Huw Irranca-Davies
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
2 Mawrth 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 57

FOOD, WALES

The Charges for Residues Surveillance (Amendment) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Charges for Residues Surveillance Regulations 2006 (S.I. 2006/2285) in relation to Wales.

These Regulations vary the fees required to be paid in respect of the surveillance of animals and animal products for residues of veterinary medicinal products and other substances.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2026 No. 57

FOOD, WALES

The Charges for Residues Surveillance (Amendment) (Wales) Regulations 2026

Made	*2 March 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45 and 48(1)(b) of the Food Safety Act 1990(**1**) and now vested in them(**2**).

In accordance with section 48(4A)(**3**) of that Act, the Welsh Ministers have had regard to advice given by the Food Standards Agency on the proposal to make these Regulations.

There has been consultation as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down the procedures in matters of food safety(**4**).

Title, application and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Charges for Residues Surveillance (Amendment) (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) These Regulations come into force on 1 April 2026.

Amendment to the Charges for Residues Surveillance Regulations 2006

2.—(1) The Charges for Residues Surveillance Regulations 2006(**5**) are amended as follows.

(2) In regulation 3 (liability for and recovery of charges for residues surveillance)—

(**1**) 1990 c. 16. Section 45(1) and (2) of the Food Safety Act 1990 ("the 1990 Act") was amended by paragraphs 7, 8 and 20 of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (c. 28) ("the 1999 Act"). Section 48(1) was amended by paragraphs 7, 8 and 21 of Schedule 5 to the 1999 Act.

(**2**) The functions, formerly exercised by "the Ministers", so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as read with section 40(3) of the 1999 Act. Those functions are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**3**) Section 48(4A) was inserted by paragraph 21 of Schedule 5 to the 1999 Act.

(**4**) EUR 2002/178, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(**5**) S.I. 2006/2285; relevant amending instruments are S.I. 2007/2439, 2008/2999, 2009/2779, 2011/2945, 2024/967 (W. 162) and 2025/370 (W. 73).

(a) in paragraph (1)(a)—

(i) for “1 October 2024” substitute “1 April 2026”;

(ii) for “31 March 2025” substitute “31 March 2027”;

(b) in paragraph (1)(b), for “1 April 2025” substitute “1 April 2027”.

(3) For Schedule 1 (residues surveillance charges)(**6**) substitute—

“SCHEDULE 1

Regulation 3(1)

Residues Surveillance Charges

Type of creature or animal product	**Charge (£) from 1 April 2026 to 31 March 2027**	**Charge (£) on or after 1 April 2027**
Bovine	0.9964 per carcase	1.0216 per carcase
Goat	0.0864 per carcase	0.0886 per carcase
Sheep	0.0864 per carcase	0.0886 per carcase
Soliped	0.5359 per carcase	0.5495 per carcase
Swine	0.0845 per carcase	0.0867 per carcase
Game and wild game	1.0461 per tonne	1.0461 per tonne
Poultry	0.7397 per tonne	0.7584 per tonne
Eggs	0.0237 per case of 360	0.0243 per case of 360
Milk	0.0466 per 1000 litres	0.0478 per 1000 litres
Fish other than trout	2.7078 per tonne of marketed product	2.7764 per tonne of marketed product
Trout	3.2455 per tonne of fish food	3.3278 per tonne of fish food”.

Huw Irranca-Davies
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
2 March 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty’s Stationery Office and King’s Printer for Wales.

(**6**) Schedule 1 was last substituted in relation to Wales by S.I. 2024/967 (W. 162) and was subsequently corrected by S.I. 2025/370 (W. 73).

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839828-1

9 780348 398281